

DEDDF Y COMISIWN ARCHWILIO 1998

Cyfrifon y Comisiwn Archwilio Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr, wedi eu paratoi yn unol â pharagraffau 11(1) ac 11(2) o Atodlen 1 i Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Hydref 2000, yn ogystal â Thystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon hynny. (Yn dilyn Papur Rhif 696 o 1999–2000.)

Cyflwynwyd yn dilyn Deddfy Comisiwn Archwilio 1998, paragraffau 11(1) ac 11(2) Atod. 1

Y Comisiwn Archwilio Dros Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr Cyfrifon 1999-2000

ARCHEBWYD GAN Y TY CYFFREDIN I'W ARGRAFFU AR 4 GORFFENNAF 2001

CYFLWYNWYD I'R CYNULLIAD CECDLAETHOL AR 10 GORFFENNAF 2001

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	1
Datganiad ar Rheolaeth Ariannol Fewnol	7
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol I Dair' Senedd ac i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	9
Cyfrif Incwm a Gwariant	10
Mantolen	11
Datganiad Llif Arian Parod	12
Nodau I'r Cyfrifon	13
Cyfarwyddyd y Cyfrifon	25
Atodlen 1	27
Atodlen 2	28

Rhagair i'r Cyfrifon

Y COMISIWN ARCHWILIO AWDURDODAU LLEOL A'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMURU A LLOEGR

Datganiad Cyfrifon a baratowyd ar ffurf a orchmynnwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn unol â pharagraffau 11(1) ac 11(2) o Atodlen 1 i Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998.

Cyflawnir swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r Comisiwn ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y bo'n briodol) a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Cefndir Statudol

1. Sefydlwyd y Comisiwn Archwilio Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr (y Comisiwn) ar 21 Ionawr 1983 gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1982. Corffaeth gorfforedig yw'r Comisiwn a dechreuodd weithredu ar 1 Ebrill 1983. Ar 1 Hydref 1990 aeth yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad allanol o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a newidiwyd ei enw i'r Comisiwn Archwilio Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr.

Rhoddyd cydsyniad brenhinol i Ddeddf gydgyfnerthu, Deddf y Comisiwn Archwilio 1998, ym mis Mehefin 1998.

Ychwanegwyd at gyfrifoldebau'r Comisiwn ymhellach gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. O dan y Ddeddf hon, mae'n rhaid i archwilwyr a benodir gan y Comisiwn archwilio Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau (CPGGau) awdurdodau lleol a bydd y Comisiwn yn gyfrifol am arolygu i ba raddau y mae awdurdodau'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

2. Fel arfer penodir aelodau'r Comisiwn am gyfnod o dair blynedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
3. Cymeradwyir penodiad y Cyfarwyddwr Archwilio (fel arfer am gyfnod o dair blynedd) gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Cadeirydd	Diwedd contract
Y Fonesig Helena Shovelton DBE (o 17/12/1998)	30/11/2001
Is-gadeirydd	
Mr J D Orme FCA	31/10/2000
Aelodau	Diwedd contract
Mr R A Arthur	30/09/2002
Ms J Baddeley	31/10/2002
Dr J Curson	30/06/2001
Mr J R Foster OBE	31/10/2001
Mrs A Fresko	31/10/2003
Ms R Lowe	30/06/2001
Yr Athro S Richards	31/10/2003
Ms H Rowland	Ymddiswy ddodd 31/03/2000
Syr Peter Soulsby	31/10/2000
Mrs I Tarry CBE	31/10/2000
Syr Ron Watson CBE	31/10/2001
Syr David Williams CBE	31/10/2003
Mr B Wolfe	31/10/2002
Ms E Filkin	31/10/2002
Syr Graham Hart	31/10/2002

Penodwyd y Comisiynwyr canlynol ar 1 Rhagfyr 2000.

	Diwedd y contract
Mr P Lane	31/10/2003
Mr G Lemos	31/10/2003
Mr N Skellett	31/10/2003
Mr C Swinson	31/10/2003

Cyfarwyddwr Archwilio Syr Andrew Foster

Dyletswyddau'r Comisiwn

4. Ceir isod grynodeb o'r prif ddyletswyddau a phwerau a roddwyd i'r Comisiwn o dan Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 (Deddf 1998) a Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Deddf 1999). Am arweiniad mwy manwl, dylid chwilio am gyfeiriadau yn adrannau perthnasol y Deddfau.

	Deddf 1998	Deddf 1999
	adran	adran
Dyletswyddau		
Penodi archwilwyr.	3	
Paratoi ac adolygu'r Côt Ymarfer Archwilio a'r Côt Ymarfer ar gyfer archwilio Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau (CPGGau).	4	8
Pennu graddfa neu raddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon, archwilio CPGGau ac ar gyfer arolygu a Gwerth Gorau.	7	8 a 12
Ar gais y corff dan sylw, gwneud trefniadau i ardystio ceisiadau a wneir mewn perthynas â grantiau, cymorthdaliadau, neu unrhyw geisiadau neu ffurflenni treth o'r fath a dderbynnir gan orff a archwilir.	28	
Ymgymryd ag astudiaethau cymharol neu astudiaethau eraill y bwriedir iddynt ei alluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddapraru gwasanaethau; ac ar gyfer wella rheolaeth ariannol a mathau eraill o a reolaeth.	33	
Ymgymryd ag astudiaethau o'r effaith y mae gweithredu unrhyw ddarpariaeth statudol yn ei chael, neu astudiaethau o unrhyw gyfarwyddyd neu arweiniad a roddir gan un o weinidogion y goron, ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau, neu ar y modd y rheolir cyllid cyrff a archwiliedig (ar wahân i gyrff wasanaeth iechyd).	34	
Gorchymyn cyrff perthnasol i gyhoeddi gwybodaeth a fydd yn hwyluso'r gwaith o gymharu gwahanol gyrff perthnasol; a gwahanol flynyddoedd ariannol.	44	
Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gorchymyn, arolygu i ba raddau y mae awdurdod gwerth gorau enodol yn cydymffurfio.		10

Deddf 1998 **Deddf 1999**
adran **adran**

Pwerau

<p>Arolygu i ba raddau y mae awdurdod gwerth gorau yn cydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Ddeddf.</p>	10
<p>Cyfarwyddo archwiliwr i gynnal archwiliad arbennig os yw'n ymddangos i'r Comisiwn fod hynny'n ddymunol; neu ar gais etholwr llywodraeth leol, ac eithrio mewn un o gyrff y wasanaeth iechyd.</p>	25
<p>Gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol, a chyda chytundeb y corff, ymgymryd ag archwiliad o gyfrifon corff, yr ymddengys i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn gysylltiedig â llywodraeth leol neu â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol; ac nad yw'n gorff sy'n cael ei archwilio.</p>	29
<p>Ar gais unrhyw gorff archwiliedig, hyrwyddo astudiaethau y bwriedir iddynt wella cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth reoli neu redeg y corff archwiliedig neu ymgymryd â'r astudiaethau hynny.</p>	35
<p>Ar gais cyrff addysgol penodol, hyrwyddo astudiaethau y bwriedir iddynt wella cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth reoli neu redeg cyrff addysgol penodol, neu ymgymryd â'r astudiaethau hynny.</p>	36
<p>Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, cynorthwyo unrhyw astudiaeth y bwriedir iddi wella cynildeb, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd perfformiad o ran y modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol.</p>	37
<p>Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, cynorthwyo unrhyw astudiaeth y bwriedir iddi wella cynildeb, effeithlonrwydd, effeithioldeb ac ansawdd perfformiad o ran y modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogathau sy'n ymwneud a gweinyddu budd-dâl tai a budd-dâl treth y cyngor.</p>	38
<p>Efallai y bydd y Gorfforaeth Tai a'r Comisiwn yn cytuno ar raglenni o astudiaethau cymharol y bwriedir iddynt alluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion ar gyfer gwella cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.</p>	40
<p>Mynnu bod unrhyw gorff archwiliedig yn rhoi i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth benodol sydd ei hangen er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau.</p>	48

Darpariaeth Ariannol

5. Yn ôl Deddf 1998 (paragraff 8 o Atodlen 1) mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn drafod ei faterion busnes fel na fydd ei incwm o ffioedd ac o ffynonellau eraill, o ystyried y naill flwyddyn gyda'r llall, yn llai na'i wariant y mae'n briodol ei godi ar ei gyfrif incwm a gwariant.

Mae hyn yn berthnasol i'r gwahanol feysydd swyddogaeth o fewn y Comisiwn ar wahan.

Mae'r Comisiwn yn anelu at gynhyrchu digon o wargedion i gwrdd â'i ofynion ei hun o ran cyfalaf gweithredol, ac i sicrhau bod ganddo arian wrth gefn i ymladd achosion ymgyfreitha posibl. Mae gan y Comisiwn rwymedigaethau achlysurol a nodir yn nodyn 22 i'r cyfrifon hyn o ran ei indemniad i archwilwyr a benodir am gostau yr ânt iddynt mewn cysylltiad ag achos llys sy'n codi o ganlyniad iddynt gyflawni swyddogaethau cyfreithiol arbennig, a materion sy'n deillio o'r modd yr ymdrinnir â'i weithgarwch Arolygu mewn perthynas â TAW. Gall unrhyw gostau sy'n codi o dan delerau'r indemniad fod yn sylweddol, er y gall fod yn amhosibl rhag-weld yr amseru. Nodir yr arian sydd gan y Comisiwn wrth gefn yn nodyn 15 i'r cyfrifon hyn, ac mae fel a ganlyn:

	2000	1999
	£000'au	£000'au
Llywodraeth leol	7,654	6,902
Iechyd	3,856	4,110
	<u>11,510</u>	<u>11,012</u>

- Perfformiad o ran talu** 6. Mae'r Comisiwn yn anelu at dalu pob un o'i gyflenwyr o fewn cyfnod rhesymol wedi iddo dderbyn eu hanfoneb ac o fewn 30 o ddiwrnodau sut bynnag. Polisi'r Comisiwn yw talu pob credydwr yn brydlon yn unol â Chod Talu Prydlon Conffederasiwn Diwydiannau Prydain. Ar 31 Hydref 2000 28 o ddiwmodau ar gyfartaledd y bu'n rhaid i anfonebau aros cyn cael eu talu (1999 – 27 o ddiwrnodau).
- Cyfleoedd Cyfartal a Chynnwys Cyflogeion** 7. Polisi'r Comisiwn yw sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cyflogeion cyfredol nac ymgeiswyr ar gyfer swyddi ar sail rhyw, statws priodasol, hil, crefydd, lliw, tras ethnig, oedran, cyfeiriadedd rhywiol nac anabled personol. Ymgynghorir yn ffurfiol â chyflogeion yn rheolaidd trwy gyfrwng Cyd-bwyllgor Trafod, sy'n trafod cyflog a thelerau â rheolwyr.
- Blwyddyn 2000** 8. Cymerodd y Comisiwn Archwilio gamau i sicrhau bod systemau busnes allweddol, gan gynnwys cyfrifiaduron, meddalwedd, ac offer cyfathrebu yr oedd arno eu hangen i fasnachu yn parhau i weithredu cyn, yn ystod ac ar ôl 1 Ionawr 2000. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'r flwyddyn 2000 yn ystod y flwyddyn.
- Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol** 9. Yn unol â pharagraff 11(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 1998 cyfarwyddwyd y Comisiwn i baratoi Datganiad Cyfrifol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd Cyfrifon hwn fel atodiad i'r cyfrifon hyn. Paratoui'r cyfrifon hyn ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn a'i incwm a'i wariant a'i lifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae angen i'r Comisiwn:

- gadw'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennyddion Gwladol, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifo a datgelu gwybodaeth, a gweithredu polisïau cyfrifo priodol yn gyson;
- dyfarnu a rhoi amcangyfrifon yn rhesymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- oni fydd yn amhriodol, paratoui'r datganiadau ariannol ar sail y busnes gweithredol; ac

- os yn berthnasol, paratoi cyfrifon cost hanesyddol addasedig. Ni pharatowyd y rhain gan fod y newidiadau sydd eu hangen yn amherthnasol i gyfrifon y Comisiwn.

O dan baragraff 11(4) o Atodlen 1 i Ddeddf 1998, a darpariaeth bellach Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, mae angen i'r Archwiliwr a'r Archwiliwr Cyffredinol osod y cyfrifon hyn ynghyd â'i adroddiad arnynt gerbron y Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn unol â pharagraff 14(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1998 a darpariaeth bellach Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 mae adroddiad blynyddol y Comisiwn ar y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau yn cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau er mwyn iddo gael ei osod gerbron Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad yn ymgorffori adolygiad o'r flwyddyn a aeth heibio a rhagolwg o ddatblygiadau yn y dyfodol ac fe'i cyflwynir ar y cyd â'r cyfrifon hyn.

Enwyd y Cyfarwyddwr Archwilio yn Swyddog Cyfrifo Comisiwn gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel y Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am sicrhau y rheolir yr arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano mewn modd priodol a chyson ac am gadw cofnodion cywir, ym Memordandwm Swyddog Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus An-adrannol.

Rheolaeth Gorfforaethol a Rheolaeth Fewnol

10. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi ymrwymo i gynnal y safonau proffesiynoldeb uchaf ym mhob agwedd ar ei waith. Nododd y Comisiwn y bwriedir ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus An-adrannol gweithredol lunio Datganiad Rheolaeth Fewnol ac mae'n croesawu hynny. Wrth baratoi ar gyfer cydymffurfio â'r gofyniad hwnn mae'r Comisiwn yn cynnal adolygiad manwl o'i drefniadau rheoli, ac mae'n cyflwyno trefniadau rheoli risg cynhwysfawr i ategu ei ddulliau rheoli mewnol cyfredol. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cwrdd â gofynion a argymhellwyd yn "Adroddiad Turnbull" (a addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus) erbyn diwedd cyfnod ariannol 2000/2001.

Fel rhan o'r mesurau hyn, cynhaliwyd arolwg a gwerthusiad manwl o'r risgau sy'n wynebu pob rhan o weithgareddau'r Comisiwn o fis Medi i fis Tachwedd 2000. O ganlyniad i hyn lluniwyd cofrestr risgiau ganolog a nodwyd Rheolwyr Risg ym mhob maes. Mae gwaith ar y gweill i integreiddio rheoli risgiau o fewn cylch cynllunio busnes y Comisiwn, i gyflwyno cynlluniau hyfforddi ar gyfer Rheolwyr a chynnal gweithdai ymwybyddiaeth o risgau ar gyfer pob aelod o staff.

Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio trefniadau Rheoli'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn, a'i Reolaeth Ariannol Fewnol.

Cyfarfu'r Comisiwn un ar ddeg o weithiau yn ystod y flwyddyn (ni chyfarfu'r Comisiwn ym mis Awst) i drafod busnes y Comisiwn. Ceir rhestr o'r Comisiynwyr ar ddechrau'r Rhagair i'r Cyfrifon. Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd y Comisiwn, sefydlwyd saith Panel i arolygu eitemau penodol a'u hystyried. Arolygir cylchoedd gwaith ac aelodau pob un o'r Paneli yn rheolaidd.

Ar 31 Hydref 2000 aelodau'r Paneli oedd:

	Panel		Prynu a Rheoli Ansawdd	Adnoddau	Dadansoddi ac Archwiliadau		Arolygu
	Ymgynghorol y Comisiwn (Nodyn 1)	Archwilio			Ymchwilio	Dosbarth	
Syr Ron Watson	✓	✓			✓	✓	✓
Ms J Baddeley						✓	✓
Mr J D Orme	✓		✓				
Mr J R Foster	✓			✓			✓
Mrs I Tarry			✓		✓		
Mrs A Fresko	✓			✓		✓	
Ms E Filkin			✓		✓		
Syr Graham Hart		✓					✓
Mr R A Arthur			✓		✓		
Ms R Lowe					✓	✓	
Syr David Williams				✓			✓
Y Fonesig Helena Shovelton	✓						
Syr Peter Soulsby	✓	✓			✓	✓	
Yr Athro S Richards	✓						✓
Dr J Curson		✓			✓		
Mr Brian Wolfe		✓		✓		✓	✓
Cadeiryddion y Paneli	Y Fonesig Helena Shovelton	Syr Ron Watson	Mr J D Orme	Mr J R Foster	Syr Peter Soulsby	Mrs A Fresko	YR Athro S Richards

Nodyn 1: Mae hwn yn gweithredu fel Panel Talu Cydnabyddiaethau'r Comisiwn.

Panel Ymgynghorol y Comisiwn

Mae Panel Ymgynghorol y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd y Comisiwn a Chadeiryddion pob un o'r Paneli eraill. Mae'n ystyried y prif faterion sy'n deillio o waith y Paneli eraill ac yn cyflwyno adroddiad ar yr ystyriaethau hynny i'r Comisiwn llawn. Mae hefyd yn sicrhau bod y polisiau ar roi cydnabyddiaeth yn adlewyrchu anghenion y Comisiwn a'r farchnad lle y mae'n gweithredu. Fel rhan o'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Panel yn cymeradwyo cydnabyddiaethau'r Rheolwr a'r Cyfarwyddwyr ac yn cymeradwyo achosion penodol o ymddeoliadau cynnar neu ymddeoliadau oherwydd ieched gwael a threfniadau diswyddo. Cyfarfu naw gwaith yn ystod y flwyddyn.

Panel Archwilio

Fel arfer mae'r Panel Archwilio, a gadeirir gan Syr Ron Watson, yn cyfarfod bob chwarter a chyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Ei brif dasgau yw:

- cytuno ar raglen yr archwiliad mewnol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a derbyn adroddiadau'r archwiliwr mewnol. Mae hefyd yn monitro perfformiad yr archwiliwr mewnol a'r modd y gweithredir argymhellion yr archwiliad;
- derbyn llythyr rheoli'r archwiliwr allanol, ac adroddiadau oddi wrth aelodau o staff y Comisiwn ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu unrhyw argymhelliad pwysig ar gyfer newid a wneir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Gall yr archwiliwr mewnol a'r archwiliwr allanol fynd at gadeirydd y Panel Archwilio'n uniongyrchol; ac
- ystyried a chyflwyno adroddiad ar ba mor ddigonol a pha mor gywir yw cyfrifon rheoli, gwybodaeth am gyfrifon a dulliau rheoli cyfrifon.

Paneli Eraill

Prif amcanion y 5 Panel arall yw:

- Mae'r Panel Prynu a Rheoli Ansawdd yn argymhell penodiadau i'r panel archwilio, yn goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu cyngor technegol a roir i'r archwilwyr ac yn sicrhau bod ansawdd eu gwaith yn cwrdd â safonau a osodir gan y Comisiwn.
- Mae'r Panel Archwiliadau Dosbarth (AD), sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau mewnol ar ran y Comisiwn, yn gweithredu gyda rhywfaint o annibyniaeth o fewn fframwaith rheoleiddio. Mae'r Panel Archwiliadau Dosbarth yn goruchwylio ac yn cynghori ar strategaeth a pherfformiad yr AD ac yn sicrhau, pan fydd angen, fod y Comisiwn llawn yn ystyried materion perthnasol yr AD.
- Mae'r Panel Arolygu yn cydlynu'r gwaith o oruchwylio rhaglen arolygu'r Comisiwn, ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn llawn yn ôl yr angen. Mae'n monitro tueddiadau sy'n ymddangos ac yn gwneud argymhellion ynghylch newid prosesau a gweithdrefnau yn ôl yr galw.
- Mae'r Panel Adnoddau'n monitro'r modd y defnyddir adnoddau, yn ariannol ac yn ddydol, mewn perthynas â chyflawni'r cynllun corfforaethol ac â chyrraedd amcanion strategol y Comisiwn.
- Mae'r Panel Dadansoddi ac Ymchwilio'n monitro ac yn datblygu rhaglenni astudiaethau'r Comisiwn.

Datganiad ar Reolaeth Ariannol Fewnol

11. Enwebyd y Rheolwr, Syr Andrew Foster, yn Swyddog Cyfrifo Comisiwn ac mae'n cydnabod ei gyfrifoldebau o ran sicrhau bod y Comisiwn yn cynnal ac yn gweithredu system effeithiol o reoli arian yn fewnol. Bwriedir i system rheoli'n fewnol y Comisiwn ddarparu lefel resymol o sicrwydd bod asedau'n cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir, a bod camgymeriadau neu anghysondebau sylweddol naill ai'n cael eu hatal neu yn cael eu canfod o fewn cyfnod amserol.

Seifr y system rheoli arian yn fewnol ar fframwaith o wybodaeth reolaidd am reolwyr, y modd y rheolir arian, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys cadw dyletswyddau ar wahân, a gwahanol lefelau o ddirprwyo a nodir gan Drysorlys EM, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac Aelodau o'r Comisiwn Archwilio.

Mae'n cynnwys yn arbennig:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr â chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Aelodau;
- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- adolygiadau rheolaidd gan yr Aelodau o adroddiadau misol ac adroddiadau ariannol blynyddol, sy'n dangos perfformiad ariannol sy'n groes i'r rhagolygon;
- canllawiau rheoli buddsoddi cyfalaf priodol, diffiniedig; ac
- fel y bo'n briodol, ddisgyblaethau rheoli projectau ffurfiol.

Mae gan y Comisiwn Archwilio archwilwyr mewnol, y mae eu gwaith yn canolbwyntio ar weithgareddau allweddol a benderfynir trwy ddadansoddi'r meysydd hynny lle y mae'r risg ar ei uchaf. Gwneir y gwaith hwn i'r safon a ddiffinnir gan Lawlyfr

Archwilio Mewnol y Llywodraeth, ac yn unol â chynllun yr archwiliad mewnol blynyddol a gymeradwyir gan y Panel Archwilio. Mae'r archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau i'r Swyddog Cyfrifo ac i'r Panel Archwilio yn rheolaidd a gallant fynd yn uniongyrchol at Gadeirydd ac at Aelodau'r Panel Archwilio.

Llywir yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli'n fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol, y Panel Archwilio, y cyfarwyddwyr gweithredol o fewn y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli arian, a chan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac, fel y nodir yn Adran 10 o'r Rhagair, rwyf yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion y Trysorlys bod datganiad rheoli mewnol yn cael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2001, yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

Y Fonesig Helena Shovelton DBE
Cadeirydd

14 Mawrth 2001

Syr Andrew Foster
Cyfarwyddwr Archwilio

14 Mawrth 2001

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Dai'r Senedd ac i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 10 i 24 yn unol a Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 wedi ei ymestyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorchymun 1999 (Trosglwyddiad Gweithredoedd). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanseyddol a'r polisiau cyfrifo a nodir ar dudalennau 13.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn Archwil, Rheolydd Archwiliad a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalennau 4 a 5 yn y Rhagair i'r cyfrifon, mae'r Comisiwn Archwilio a'r Rheolydd Archwiliad yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Comisiwn Archwilio a'r Rheolydd Archwiliad hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn of statud, ac fe'u harweinigir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n gywir yn unol a Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 ac a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys yn of gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd cyflwyno adroddiad os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson a'r datganiadau ariannol, os na chadwodd y Comisiwn gofnodion cyfrifo cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 7 a 8 yn adlewyrchu cydymffurfiaid y Comisiwn ag arweiniad y Trysorlys sef "Rheoli corfforaethol: datganiad ar y system o reolaeth ariannol fewnol". Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson a gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail y farn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol a'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn Archwilio a'r Rheolydd Archwiliad wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn, a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliiais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodeith a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth I roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu drwy afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol hefyd.

Barn

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun gwir a theg o gyflwr materion y Comisiwn Archwilio ar 31 Hydref 2000 ac o'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol a Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn of gofynion y Ddeddf gan Ysgrifenyddion Gwladol yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac ar gyfer Cymru; ac
- ymhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolydd a'r Archwilio Cyffredinol

28 Mawrth 2001

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

Y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2000

	Nodyn	2000 £000	1999 £000
Incwm o weithredu			
Incwm crynswth o ffioedd	2	125,862	104,589
Incwm o Arolygiadau Gwerth Gorau	3	12,649	1,890
Incwm Arolygiadau Eraill		2,750	1,793
Incwm o weithrediadau eraill	4	3,084	3,324
		<u>144,345</u>	<u>111,596</u>
Costau gweithredu			
Costau Staff ac aelodau	5	74,313	58,669
Gwasanaethau a brynir i mewn	6	39,252	33,240
Costau gweithredu eraill	7	30,375	18,652
Costau tybiannol	1(x)	673	645
		<u>144,613</u>	<u>111,206</u>
(Diffyg)/gwarged gweithredu gan gynnwys costau tybiannol			
	2	(268)	390
Ychwanegu ôl-gostau tybiannol	1(x)	673	645
Llog clir i'w dderbyn	8	298	539
Costau clir yn deillio o gyfreitha	9	(205)	(1,059)
		<u>498</u>	<u>515</u>
Gwarged ar gyfer y flwyddyn			

Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodir symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn yn nodyn 15.

Ni fu unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar wahân i'r canlyniad am y flwyddyn.

Mae pob un o'r canlyniadau uchold yn deillio o weithrediadau parhaol.

Mantolen ar 31 Hydref 2000

	Nodyn	2000 £000	1999 £000
Asedau sefydlog	11	<u>5,384</u>	<u>2,874</u>
Asedau cyfredol			
Dyledwyr a gwaith sy'n mynd rhagddo	12	33,009	20,629
Arian yn y banc ac mewn llaw		<u>8,177</u>	<u>6,807</u>
		41,186	27,436
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn			
Credydwyr a chostau cronedig	13	<u>34,340</u>	<u>19,298</u>
Asedau clir cyfredol		<u>6,846</u>	<u>8,138</u>
Cyfanswm yr asedau clir a ddefnyddiwyd		<u>12,230</u>	<u>11,012</u>
Ariannwyd gan			
Grant Cyfalaf Gohiriedig	14	720	—
Arian Cyffredinol Wrth Gefn	15	<u>11,510</u>	<u>11,012</u>
Cyfanswm y Cyllid		<u>12,230</u>	<u>11,012</u>

Mae'r nodiadau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Y Fonesig Helena Shovelton DBE

Cadeirydd

14 Mawrth 2001

Syr Andrew Foster

Cyfarwyddwr Archwilio

14 Mawrth 2001

Datganiad Llif Arian ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Hydref 2000

		2000	1999
	Nodyn	£000	£000
Mewnlif arian clir/(echlif) o weithrediau'r Comisiwn	16	3,762	(1,291)
Elw o fuddsoddiadau ac wasanaeth cyllid			
Llog a dderbyniwyd		305	539
Grant cyfalaf		800	—
Mewnlif arian clir o'r elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid		1,105	539
Gwariant cyfalaf a buddsoddi ariannol			
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol		(3,490)	(1,660)
Llog sy'n daladwy		(7)	—
Echlif arian clir o weithgareddau buddsoddi		(3,497)	(1,660)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian	17	1,370	(2,412)

Nodiadau i'r Cyfrifon

Arferion a Pholisïau Cyfrifo

- 1 (i) Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn costau hanesyddol ar ffurf a orchmynnir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chyntundeb Trysorlys EM, o dan baragraff 11 (1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.
- (ii) Mae'r cyfrifon yn cwrdd â gofynion Deddf Cwmnïau 1985, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, ac â safonau cyfrifeg perthnasol i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol.
- (iii) Ble bynnag yr oedd modd priodolwyd gwariant Llywodraeth Leol a'r NHS yn uniongyrchol i'r gweithgaredd perthnasol; pan na fu hyn yn bosibl, priodolwyd gwariant cyffredinol i bob gweithgaredd ar sail yr oriau a weithiwyd.
- (iv) Codir am rentu prydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros dymor y brydles.
- (v) Seilir incwm crynswth o ffioedd ac incwm arall o weithrediadau'r Comisiwn ar werth y gwaith y gellir codir amdano heb gynnwys TAW.
- (vi) Credydir incwm gweithredu, p'un a ddaw o grant uniongyrchol gan y llywodraeth, o ffioedd i awdurdodau neu gan ffynhonnell arall, i'r flwyddyn gyfrif pan wneir y gwaith. Bydd incwm sydd i ddod o Ddyledwyr ac o Waith sy'n Mynd Rhagddo yn cael ei gario ymlaen yn ôl ei werth sylweddoladwy amcangyfrifedig.
- (vii) Nid ystyrir bod y costau clir sy'n deillio o achosion cyfreithiol yn rhan o ddiffyg gweithredu'r Comisiwn, eithr fe'u dangosir ar wahân yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.
- (viii) Darperir ar gyfer dibrisiant pob ased sefydlog. Mae wedi'i gyfrifo i ddileu cost pob ased, llai'r gwerth gweddillol amcangyfrifedig, mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal dros ei oes ddefnyddiol ddiswyliedig fel a ganlyn:
- | | |
|---------------------|------------|
| Dodrefn a Ffitiadau | 10 mlynedd |
| Offer Cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Offer Swyddfa | 5 mlynedd |
- Dileir cost cyfrifiaduron desg unigol yn y flwyddyn brynu.
- (ix) Mae'r Comisiwn yn darparu cynllun pensiwn â buddiannau diffiniedig ar gyfer ei gyflogeion a chodir costau'r cynllun hwnnw ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.
- (x) Cyfrifir Cost Dybiannol Cyfalaf yn unol âg Arweiniad y Trysorlys ac fe'i codir ar Gostau Gweithredu Eraill. Ychwanegir y gost yn ôl i'r Diffyg Gweithredu a'i phriodoli i wariant Llywodraeth Leol a'r NHS ar sail yr arian sydd wrth gefn ym mhob gweithgaredd.

Dadansoddi Incwm a Gwariant	2 (i) Llywodraeth Leol ac Iechyd	2000 £000	1999 £000
Llywoderaeth Leol			
<i>Incwm</i>			
Incwm o Fffoedd		86,967	65,335
Incwm o Arolygiadau Gwerth		12,649	1,890
Corau Incwm o Arolygiadau Eraill		2,750	1,793
Incwm Arall		1,701	2,382
		<u>104,067</u>	<u>71,400</u>
<i>Gwariant</i>			
Costau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol		103,315	70,882
Canlyniadau Clir		<u>752</u>	<u>518</u>
Iechyd			
<i>Incwm</i>			
Incwm o Fffoedd		38,894	39,254
Incwm Arall		1,383	942
		<u>40,277</u>	<u>40,196</u>
<i>Gwariant</i>			
Costau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol		40,531	40,199
Canlyniadau Clir		<u>(254)</u>	<u>(3)</u>
 <i>(ii) Dadansoddiad o Incwm: Gwaith yr ymgwymerir ag efyn uniongyrchol gan y Comisiwn, a gwaith a osodir ar gontract</i>			
		2000 £000	1999 £000
Mewnol			
Archwiliadau Dosbarth		90,715	76,033
Arolygiadau Gwerth Gorau		12,649	1,890
Incwm o Arolygiadau Eraill		2,750	1,793
Incwm Arall		3,084	3,324
		<u>109,198</u>	<u>83,040</u>
Gwaith a osodwyd ar gontract			
Fffoedd Archwilio		<u>35,147</u>	<u>28,556</u>

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfran o'r incwm archwilio i ariannu ei ddyletswyddau statudol a gweithgareddau canolog eraill. Ar gyfartaledd derbynnir 9.6% o'r incwm o fffoedd archwilio gan yr Archwiliad Dosbarth a chan gwmnïau cyfrifo preifat. Yn ogystal derbyniodd y Comisiwn £4.9m gan yr Archwiliad Dosbarth sy'n adlewyrchu elw buddsoddiad o'i asiantaeth archwilio led-annibynnol.

Dadansoddi Incwm a Gwariant (continued)**2 (iii) Dadansoddiad o'r Math o Archwiliad ac Arolygiad**

	2000 £000	1999 £000
Incwm		
Archwiliadau	109,002	90,067
Adran 28	16,860	14,522
<i>Arolygiadau</i>		
Gwerth Gorau	12,649	1,890
Ofsted	824	592
SSI	1,926	1,201
Incwm arall	3,084	3,324
	<u>144,345</u>	<u>111,596</u>
Gwarged/(Diffyg)		
Archwiliadau (gan gynnwys incwm arall)	443	467
Adran 28	58	78
<i>Arolygiadau</i>		
Gwerth Gorau	—	—
Ofsted	(75)	34
SSI	72	(64)
	<u>498</u>	<u>515</u>

Cyllidebir ar gyfer costau yr eir iddynt gan Dîm yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar y sail bod blwyddyn ariannol yr SSI yn gorffen ar 31 Mawrth. Mae tîm arolygu'r Awdurdodau Addysg Lleol ar y cyd yn gweithredu yn ôl blwyddyn weithredu Ofsted sy'n gorffen ar 31 Awst.

Incwm o Arolygiadau Gwerth Gorau**3 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 mae'n rhaid i archwilwyr a benodir gan y Comisiwn archwilio Cynlluniau Gwerth Gorau (CPGGau) awdurdodau lleol a bydd y Comisiwn yn gyfrifol am arolygu i ba raddau y mae awdurdodau yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.**

Mae grantiau ar gael i'r Comisiwn ar gyfer gwaith Arolygu awdurdodau gwerth gorau, ac yn ystod y cyfnod dan sylw derbyniwyd nifer o grantiau, yn bennaf gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR), a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar ben hynny yn ystod 1999/2000 cafodd gwaith ar gynlluniau gwerth gorau ar gyfer awdurdodau Heddlu ei ariannu'n uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref.

	2000 £000	1999 £000
DETR	10,626	1,890
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	1,043	—
Y Swyddfa Gartref	980	—
	<u>12,649</u>	<u>1,890</u>

Incwm o Weithrediadau	4	2000	1999
Eraill		£000	£000
Costau Cyfreithiol a ad-dalwyd		777	481
Cyhoeddiadau a Chynadleddau		1,035	1,060
Menter twyll genedlaethol		—	816
Secondiadau ac incwm amrywiol		1,272	967
		<u>3,084</u>	<u>3,324</u>
<hr/>			
Costau Staff ac Aelodau'r	5	2000	1999
Comisiwn		£000	£000
<i>(i) Costau Staff</i>			
Cyflogau		55,721	43,324
Costau Nawdd Cymdeithasol		5,170	4,011
Costau pensiwn eraill — gweler Nodyn 19		5,538	4,950
Cost ceir ar les		3,665	3,396
Costau teithio a chynhaliaeth eraill		4,057	2,848
		<u>74,151</u>	<u>58,529</u>
		2000	1999
		£000	£000
<i>(ii) Costau Comisiyawyr</i>			
Cyflogau		132	112
Costau Nawdd Cymdeithasol		8	7
Costau teithio a chynhaliaeth eraill		22	21
		<u>162</u>	<u>140</u>
<i>(iii) Nifer y staff ar gyfartaledd a gyflogwyd yn fisol yn ystod y cyfnod oedd:</i>			
		2000	1999
Archwiliadau Dosbarth			
—staff archwilio		1,044	951
—staff archwilio dan hyfforddiant		128	109
—staff cynorthwyol		185	156
Cyfarwyddiaethau y Comisiwn		388	254
Staff a secondiwyd		7	10
		<u>1,752</u>	<u>1,480</u>
Yn gyflogedig ar 31 Hydref		<u>1,885</u>	<u>1,600</u>
<i>(iv) Roedd nifer yr aelodau hŷn o staff ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod yr oedd eu cyflogau trethadwy'n fwy na £40,000 fel a ganlyn:</i>			
		2000	1999
£40,001 — £50,000		271.3	191.3
£50,001 — £60,000		118.8	74.6
£60,001 — £70,000		57.0	45.5
£70,001 — £80,000		25.7	16.9
£80,001 — £90,000		15.5	8.1
£90,001 — £100,000		5.0	5.2
£100,001 — £110,000		1.0	2.1
£110,001 — £120,000		3.0	—

Costau Staff ac Aelodau'r 5 (v) Cyfanswm y taliadau a wnaed i'r Cyfarwyddwr Archwilio, gan gynnwys Comisiwn (continued) buddiannau trethadwy, oedd:

	2000	1999
	£	£
Syr Andrew Foster		
Cyflog	140,504	134,519
Tâl yn ôl perfformiad	29,716	29,993
Buddiannau mewn da	6,866	6,371
	<u>177,086</u>	<u>170,883</u>

Mae'r Cyfarwyddwr Archwilio'n aelod cyffredin o Gynllun Pensiwn y Comisiwn Archwilio. O dan reolau'r cynllun hwn, gwnaeth y Comisiwn gyfraniad o £11,504 sef 12.6% o'i gyflog a'i dâl yn ôl perfformiad hyd at yr uchafswm statudol o £91,800 ar gyfer y flwyddyn dreth 2000/2001. (Y cyfraniad ym 1999 oedd £10,990 yn erbyn uchafswm statudol o £90,600 ar gyfer y flwyddyn dreth 1999/2000). Nid yw'r Comisiwn yn gwneud unrhyw gyfraniad arall i unrhyw gynllun pensiwn arall a all fod gan y Cyfarwyddwr neu beidio.

Mae'r Cyfarwyddwr Archwilio yn gymwys i dderbyn tâl yn ôl perfformiad. Fe'i hasesir yn flynyddol gan y Comisiwn yn erbyn targedau a ragderfynwyd, ac fe'i telir yn flynyddol mewn ôl-ddyled.

Mae'r ffigur a nodir ar gyfer Buddiannau mewn da yn ymwneud yn bennaf â darparu car. Cyfrifir y Budd mewn Da gan gymryd yn gamataol y bydd yn parhau i ymgymryd â rhwng 2,500 a 18,499 o filltiroedd busnes yn ystod y flwyddyn dreth 2000-2001.

(vi) Roedd nifer y Comisiynwyr ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod yr oedd eu graddfa gyflog flynyddol o fewn yr ystodau canlynol rel a ganlyn:

	2000	1999
£0 — £5,000	0.4	3.7
£5,001 — £10,000	14.0	11.1
£25,001 — £30,000	—	1.0
£30,001 — £35,000	1.0	—
	<u>1.0</u>	<u>—</u>

(vii) Union gyflog y Cadeirydd, sef y Comisiynydd a enillodd y cyflog uchaf, oedd:

	£	£
Mr C R E Brooke	—	1,753
Y Fonesig Helena Shovelton	33,371	28,764
	<u>33,371</u>	<u>28,764</u>

Mae cyfanswm y ffioedd y mae'r aelordau, ar wahân i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, â'r hawl i'w derbyn yn amrywio yn ôl faint o amser a neilltuir ganddynt ar gyfer gwaith y Comisiwn.

Gwasanaethau a Brynir i	2000	1999
Mewn	£000	£000
<i>Cyfarwyddiaethau'r Comisiwn</i>		
Ffioedd archwilio i gwmnïau preifat	32,147	25,758
Cymorth gydag astudiaethau	863	845
Cymorth gydag arolygiadau	844	421
	<u>33,854</u>	<u>27,024</u>
<i>Archwiliad Dosbarth</i>		
Cymorth gydag archwiliadau contract	5,398	6,216
	<u>39,252</u>	<u>33,240</u>

Costau Gweithredu Eraill	2000	1999
7	£000	£000
Llety		
—rhent	2,956	1,696
—costau eraill	2,094	1,098
Cyflenwadau a gwasanaethau	11,451	6,568
Recriwtio a throsglwyddiadau	3,686	1,665
Hyfforddiant	2,550	1,551
Dibrisiant (ffigur clir o'r grant cyfalaf)	900	566
Ffi archwilio	71	62
Ffioedd proffesiynol	2,596	1,260
Cyhoeddiadau	1,088	804
Costau gweithredu eraill	2,983	3,382
	<u>30,375</u>	<u>18,652</u>

Llog Clir I'w Dderbyn	8	2000	1999
		£000	£000
Llog i'w dderbyn		305	539
Llog taladwy		(7)	—
		<u>298</u>	<u>539</u>

Costa Clir Sy'n Deillio O	9	2000	1999
Achosion Cyfreithiol		£000	£000
	Gwasanaethau ymgyfreitha	205	1,059
		205	1,059

Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn ymwneud â chostau cyfreithiol yr aed iddynt gan yr archwiliwr yn yr apêl yn erbyn ei benderfyniad ar y Gwrthwynebiadau i Werthiannu Penodedig yn San Steffan. Penderfynwyd ar yr achos gan y Llys Adrannol ym mis Rhagfyr 1997, a chan y Llys Apêl ym mis Mai 1999. Cynhwysai dyfarniad y Llys Apêl ddyfarniad costau yn erbyn yr archwiliwr a thalwyd y costau hyn. Mae rhai agweddau ar ddyfarniad y Llys Apêl yn destun apêl bellach i Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r apêl hon i gael ei chynnal ym mis Tachwedd 2001.

Hwyrach y bydd costau ychwanegol i'w talu gan y Comisiwn yn yr achos hwn. Er bod y symiau dan sylw yn debygol o fod yn sylweddol, nid oes sail ddigonol ar gyfer gwneud amcangyfrif rhesymol ar hyn o bryd. Gweler Nodyn 22.

Treth	10	Mae'r Comisiwn wedi'i eithrio o dreth incwm a threth gorfforaeth yn rhinwedd Adran 519 o Ddeddf Treth Incwm a Threth 1988, ac o dreth enillion cyfalaf yn rhinwedd Adran 271 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992.
--------------	-----------	---

Asedau Sefydlog	11	Dodrefn	Offer	Offer	Cyfanswm	
		a	Cyfrifiadu-	Swyddfa		
		Ffitiafau	rol	£000	£000	
		£000	£000	£000	£000	
		Cost				
		Ar 1 Tachwedd 1999	3,355	1,156	845	5,356
		Pryniadau	2,513	549	428	3,490
		ar 31 Hydref 2000	5,868	1,705	1,273	8,846
		Dibrisiant				
		Ar 1 Tachwedd 1999	1,311	580	591	2,482
		Darparwyd yn ystod y cyfnod	448	397	135	980
		ar 31 Hydref 2000	1,759	977	726	3,462
		Gwerth llyfr clir				
		Ar 31 Hydref 2000	4,109	728	547	5,384
		Ar 31 Hydref 1999	2,044	576	254	2,874

Dyledwyr a Gwaith Sy'n Mynd Rhagddo	2000 £000	1999 £000
Dyledwyr y mae arnynt ffioedd		
—Llywodraeth Leol	13,008	6,951
—Gwasanaeth Iechyd Gwaladol	3,984	2,982
Gwaith sy'n mynd rhagddo		
—Llywodraeth Leol	4,046	3,531
—Gwasanaeth Iechyd Gwaladol	2,939	1,808
Costau pensiwn a dalwyd o flaen llaw	1,101	—
Dyledwyr a rhagdaliadau eraill	7,931	5,357
	33,009	20,629

Prisir Dyledwyr a Gwaith sy'n mynd rhagddo yn ôl eu gwerth sylweddoladwy amcangyfrifedig.

Dyledion nad ydynt yn ddyledus o fewn un flwyddyn yn gynwysiedig yn y ffigurau uchod:

Yn gynwysiedig mewn dyledwyr a rhagdaliadau eraill:

—cynllun adleoli tai: benthyciadau i staff	14	21
--	-----------	-----------

Credydwyr a Chostau Cronedig	2000 £000	1999 £000
Credydwyr masnachol	4,109	2,684
Credydwyr eraill gan gynnwys Treth a Nawdd Cymdeithasol	3,848	2,563
Taliadau gwyliau	1,673	1,359
Croniadau	11,685	6,864
Incwm gohiriedig	13,025	5,828
	34,340	19,298

Grant Cyfalaf Gohiriedig 14 Fel rhan o'r grant a dderbyniwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau i ymgymryd â gwaith arolygu i sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol 1999, derbyniodd y Comisiwn £800,000 ar gyfer darparu swyddfeydd. Trowyd gwariant sylfaenol y Comisiwn yn gyfalaf yn unol â'i bolisi.

Yn gyson â gofynion cyfrifo, sefydlwyd yr elfen hon o'r grant a dderbyniwyd fel dyled dymor hir. Fe'i rhyddheir i'r cyfrif Incwm a Gwariant i gyd-fynd a'r tâl y bydd yn rhaid ei dalu pan ddibrisir yr asedau sylfaenol. Disgwylir y bydd yr asedau hyn wedi'u dibrisio'n llawn yn 2010.

Cronfeydd Wrth Gefn	15	2000			1999		
		LIL	NHS	Cyfan-symiau	LIL	NHS	Cyfan-symiau
Cyfalaf wrth Gefn							
Wedi'i gario drosodd		<u>1,580</u>	<u>2,154</u>	<u>3,734</u>	<u>1,580</u>	<u>2,154</u>	<u>3,734</u>
Refeniw wrth Gefn							
Wedi'i ddwyn ymlaen		5,322	1,956	7,278	3,868	1,959	5,827
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		752	(254)	498	518	(3)	515
Trosglwyddiad o'r Gronfa Gyfreitha		—	—	—	936	—	936
Wedi'i gario drosodd		<u>6,074</u>	<u>1,702</u>	<u>7,776</u>	<u>5,322</u>	<u>1,956</u>	<u>7,278</u>
Cyfanswm y Cronfeydd Cyffredinol		<u>7,654</u>	<u>3,856</u>	<u>11,510</u>	<u>6,902</u>	<u>4,110</u>	<u>11,012</u>
Allwedd:		LIL	—Llywodraeth Leol				
		NHS	—Gwasanaeth Iechyd Gwladol				
<hr/>							
Cysoni'r Gwarged/(Diffyg) ar Gyfer y Flwyddyn Â'r Echlif Clir O Weithgareddau'r Comisiwn	16				2000	1999	
					£000	£000	
(Diffyg)/gwarged gweithredu					(268)	390	
Costau tybiannol					673	645	
Costau clir achosion cyfreithiol					(205)	(1,059)	
Dibrisiant					900	566	
(Cynnydd) mewn dyledwyr ac yn y gwaith sy'n mynd rhagddo					(12,380)	(4,791)	
Cynnydd mewn credydwyr					<u>15,042</u>	<u>2,958</u>	
					<u>3,762</u>	<u>(1,291)</u>	
<hr/>							
Cysoni'r Echlif Arian Clir Â Symudiadau Mewn Cronfeydd Clir	17				2000	1999	
					£000	£000	
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian					<u>1,370</u>	<u>(2,412)</u>	
Newid mewn cronfeydd clir					1,370	(2,412)	
Cronfeydd clir ar 1 Tachwedd 1999					<u>6,807</u>	<u>9,219</u>	
